COMISIWN
gwasanaethau cyfreithiol

Arweinlyfr **Cam-wrth-Gam** i Gymorth Cyfreithiol

Cymorth i dalu am achosion sifil

Cynnwys

1. **Beth yw cymorth cyfreithiol a phwy all ei gael?** 3
2. **Ar gyfer pa fath o achosion y caf gymorth cyfreithiol?** 4
3. **A ydw i'n gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol?** 4
4. **A fydd raid i mi dalu rhywfaint?** 7
5. **Talu am beth wna cymorth cyfreithiol?** 8
6. **Ydw i'n gorfod datgelu newidiadau yn fy amgylchiadau?** 8
7. **Sut alla i drefnu i weld ymgynghorydd?** 10
8. **Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn gweld ymgynghorydd?** 11
9. **Materion eraill** 14
10. **Egluro termau cyfreithiol a thermau cymorth cyfreithiol** 18
11. **Manylion cyswllt swyddfeydd rhanbarthol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol** 21

Ariannir rhai o'r gwasanaethau a chyngor y sonnir amdanynt yn y daflen hon gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (CGC). Dyma'r corff sy'n darparu cymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn rhedeg y gwasanaeth Cyngor Cyfreithiol Cymunedol (CCC), sydd â safonau ansawdd y bydd yn rhaid i ymgynghorwyr eu bodloni. Bydd cyrff ymgynghori sy'n bodloni'r safonau hyn yn arddangos y Nod Ansawdd, a ddangosir yma:

Mae Cyngor Cyfreithiol Cymunedol Uniongyrchol yn wasanaeth cyfrinachol am ddim y telir amdano gan gymorth cyfreithiol. Os ydych yn byw ar incwm isel neu ar fudd-daliadau ffoniwch **0845 345 4 345** am gyngor annibynnol ynglŷn â phroblemau dyled, addysg, teulu, budd-daliadau a chredydau treth, gwaith a thai. Nid yw galwadau'n costio mwy na 4c y munud ar linell-dir BT ond bydd galwadau ar ffôn symudol fel rheol yn ddrutach. Pryderu am y gost? Gofynnwch i ymgynghorydd eich ffonio'n ôl. Ewch ar www.cyngorcyfreithiolcymunedol.org.uk

Mae'r daflen hon yn egluro sut y gweithredir system cymorth cyfreithiol, yn cynnwys:

- beth yw cymorth cyfreithiol, ac yn fras sut y'i gweithredir;
- pwy all dderbyn cymorth cyfreithiol;
- a sut mae penderfynu a fyddech chi'n gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol.

Mae'r daflen hon yn cynnwys materion sifil yn unig (pan fo anghydfod rhyngoch â rhywun neu â chorff). Mae cymorth cyfreithiol hefyd ar gael i dalu am gyngor cyfreithiol neu gynrychiolaeth mewn materion troseddol (pan fyddoch wedi'ch cyhuddo o gyflawni trosedd). Fodd bynnag, mae'r rheolau ynglŷn â'r math hwn o gymorth cyfreithiol yn wahanol i'r rheini sydd ynglŷn â materion sifil – am ragor o wybodaeth am hyn, gweler taflen y CGC '**Arweiniad Ymarferol i Wasanaethau Amddiffyn Troseddol**' (ar gael oddi wrth Llinell daflenni'r CGC neu trwy ymweld â www.cyngorcyfreithiolcymunedol.org.uk).

Am gyngor ar sut a ble i ganfod ymgynghorydd cyfreithiol, gweler taflen y Cyngor Cyfreithiol Cymunedol '**Arweinlyfr Cam-wrth-Gam ar gyfer dewis Ymgynghorydd Cyfreithiol**'.

1. Beth yw cymorth cyfreithiol a phwy all ei gael?

Mae cymorth cyfreithiol yn helpu gyda chost cyngor cyfreithiol i bobl na allant ei fforddio.

Os oes angen help gyda chost cyngor cyfreithiol arnoch, gallwch wneud cais am gymorth cyfreithiol. Dibynna a fyddwch yn ei dderbyn ai peidio ar:

- y math o broblem gyfreithiol sydd gennych;
- eich incwm (faint a enillwch) a faint o gyfalaf (arian, eiddo a buddiannau) sydd gennych – a elwir yn 'gymhwyster ariannol'; ac
- a oes siawns dda o ennill eich achos ac a fydd yn werth yr amser a'r arian sy'n angenrheidiol er mwyn ennill.

2. Ar gyfer pa fath o achosion y caf gymorth cyfreithiol?

Mae cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer llawer math o broblemau cyfreithiol sifil. Achos cyfreithiol sifil ydi achos lle mae anghydfod rhyngoch â rhywun, â chwmni neu gorff arall.

Gall anghydfod sifil fod gyda pherson unigol, cwmni, neu adran neu asiantaeth o'r llywodraeth. Gall fod, er enghraifft, ynglŷn â'ch cartref, eich perthynas (gall eich bod yn gwahanu neu'n ysgaru), neu eich arian (gall eich bod yn cael trafferth i gael budd-daliadau).

Mae cymorth cyfreithiol ar gael ynglŷn â rhai mathau o gymorth ac achosion yn unig. Gweler 'Ar gyfer beth na allaf gael cymorth cyfreithiol?' ar dudalen 15 am enghreifftiau.

3. A ydw i'n gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol?

Ar gyfer y rhan fwyaf o achosion, bydd yn rhaid i chi fod yn 'ariannol gymwys' i gael cymorth cyfreithiol.

Golyga hyn y byddwn, er mwyn penderfynu a fyddwch yn derbyn cymorth cyfreithiol, yn edrych ar:

- eich incwm gwario (arian sy'n weddill gennych ar ôl talu eich holl gostau byw); a'ch
- cyfalaf gwario (arian, buddsoddiadau neu eiddo y gallwch ei ddefnyddio neu ei werthu i dalu am help cyfreithiol).

Byddwn hefyd yn ystyried incwm a chyfalaf gwario eich partner heblaw os yw eich perthynas wedi dod i ben neu os yw eich partner yn wrthwynebwr yn yr achos (er enghraifft pan fyddwch yn ceisio gorchymyn i'ch amddiffyn rhag niwed).

Ni fyddwch yn gymwys yn ariannol os:

- yw eich incwm misol gros (incwm cyn trethu) yn fwy na £2,530 am y mis diwethaf.

  Mae terfyn incwm gross uwch yn perthyn i deuluoedd gyda mwy na phedwar o blant dibynnol, gyda £222 yn cael ei ychwanegu at y ffigwr hwn ar gyfer y 5ed a phob plentyn dilynol; neu

- fod gennych gyfalaf gwario o dros £8,000.

Pe na bai'r un o'r ddau hyn yn berthnasol i chi, byddwn yn dal i orfod edrych ar eich sefyllfa ariannol, a'r math o achos sydd gennych, cyn penderfynu a ydych yn gymwys yn ariannol ai peidio.

Yr eithriad i hyn ydi pan fyddwch yn gwneud cais am orchymyn i'ch amddiffyn rhag niwed, pryd y gallwn ddiystyru'r terfynau uchaf hyn.

Gallwch dderbyn cymorth cyfreithiol ar gyfer rhai mathau o help waeth faint o arian sydd gennych. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, cael bargyfreithiwr neu gyfreithiwr i'ch cynrychioli mewn Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl neu petai'r cyngor lleol yn cychwyn achos gofal mewn perthynas â'ch plant. Gallwch ddarllen rhagor ar www.legalservices.gov.uk

Beth os na allaf gael cymorth cyfreithiol?

Os nad ydych yn gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol, ond eich bod yn dal yn bryderus ynglŷn â sut i dalu am gyngor neu gynrychiolaeth cyfreithiol, mae yna ddewisiadau eraill:

- canolfan cyfraith neu gyngor cyfreithiol, a all roi cyngor am ddim i chi;
- cytundeb ffî-amodol (dim-ennill, dim-ffî);
- yswiriant costau-cyfreithiol i dalu eich costau cyfreithiol; neu
- gymorth gan eich undeb llafur (neu un eich partner).

Am ragor ynglŷn â'r dewisiadau hyn, gweler taflen Cyngor Cyfreithiol Cymunedol 'Achosion Dim-ennill, Dim-ffi' ar gael ar www.cyngorcyfreithiolcymunedol.org.uk.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglŷn â'r hyn a gyfrifir yn incwm, cyfalaf a lwfansau a sut yr ydym yn asesu cymhwyster ariannol:

- ffoniwch ni ar **0800 085 6643**; neu
- ewch ar www.cyngorcyfreithiolcymunedol.org.uk, sydd â chyfrifydd cymorth cyfreithiol ar-lein. Mae'r cyfrifydd hwn yn gofyn cwestiynau fydd yn eich galluogi i ganfod a fyddwch yn debygol o fod yn gymwys yn ariannol ai peidio.

Bydd eich ymgynghorydd hefyd yn edrych ar ffeithiau eich achos i gael syniad o'i gryfderau a'i wendidau. Gelwir hyn yn 'brawf teilyngdod'. Bydd yn ystyried:

- y gobaith i'ch cais lwyddo; ac
- a ydyw eich achos yn debygol o ennill mwy nag a werir arno.

4. A fydd raid i mi dalu rhywfaint?

Os byddwch yn cael cymorth cyfreith iol, byddwn yn talu eich cyfreithiwr neu eich ymgynghorydd yn uniongyrchol – ni fyddwch chi eich hunan yn derbyn arian i dalu'r biliau cyfreithiol. Os ydych yn derbyn cymorth cyfreithiol, fe all y byddwch yn dal i orfod talu peth o'r costau, hynny'n dibynnu ar eich amgylchiadau ariannol a'ch achos.

Ceir tair ffordd y gall y byddwch yn talu:

- cyfandaliad ('cyfraniad cyfalaf');
- rhandaliadau misol o'ch incwm hyd derfyn eich achos ('cyfraniad incwm'); ac
- ad-dalu costau os y derbyniwch (neu ddal gafael ar) arian neu eiddo trwy ennill eich achos. Gelwir hyn yn 'tâl statudol' – gweler 'Beth fydd yn digwydd ar derfyn fy achos?' ar dudalen 12.

Am ragor o wybodaeth, gweler taflen y CGC 'Talu am eich Cymorth Cyfreithiol', neu ffoniwch ein llinell ymholiadau ar **0800 085 6643**.

5. Talu am beth wna cymorth cyfreithiol?

Ceir lefelau gwahanol o gymorth cyfreithiol, a byddwch yn derbyn y lefel y bydd ei hangen arnoch wedi ei sylfaenu ar asesiad o'ch cais. Dyma'r lefelau:

- Cymorth Cyfreithiol – cyngor cychwynnol a chymorth gyda'ch problem;
- Cymorth mewn Llys – cyfreithiwr neu ymgynghorydd i siarad ar eich rhan (heb fod yn eich cynrychioli'n ffurfiol) mewn gwrandawiad llys;
- Cyfryngiad Teuluol – cyfryngiad mewn anghydfodau teuluol, er enghraifft petaech chi a'ch partner yn gwahanu neu'n ysgaru;
- Cymorth Teuluol – cymorth i drafod a chael gorchmynion llys mewn anghydfodau teuluol; a
- Chynrychiolaeth Gyfreithiol – bargyfreithiwr neu gyfreithiwr i'ch cynrychioli mewn llys os ydych yn dwyn neu'n amddiffyn achos llys.

6. Ydw i'n gorfod datgelu newidiadau yn fy amgylchiadau?

Ydych, fe all y byddwn yn gwneud asesiad arall petai eich amgylchiadau ariannol yn newid, er enghraifft fod eich enillion wedi cynyddu neu ostwng neu eich bod wedi dod i arian oherwydd i chi werthu eich tŷ. Fe all y byddwn wedyn yn newid y swm y bydd yn rhaid i chi ei dalu tuag at eich costau cyfreithiol. Rhaid i chi roi gwybod yn syth i'ch ymgynghorydd petai eich sefyllfa ariannol yn newid.

Yn ogystal, gallwn atal eich cymorth cyfreithiol:

- pe na byddech yn rhoi gwybodaeth i'ch ymgynghorydd, gwybodaeth sydd ei angen arno neu y gofynwyd amdani;
- petai eich amgylchiadau ariannol yn newid fel nad ydych mwyach yn gymwys yn ariannol am nawdd;
- os nad ydych yn parhau i dalu unrhyw gyfraniad misol y bu i chi gytuno i'w dalu fel rhan o'ch cymorth cyfreithiol;
- os nad ydych wedi rhoi yr holl wybodaeth y dylsech fod wedi ei rhoi i ni ynglŷn â'ch amgylchiadau ariannol; neu
- ein bod yn canfod nad ydych yn gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol.

Gellir atal eich cymorth cyfreithiol mewn dwy ffordd:

- Gellir ei 'atal', sy'n golygu y bydd eich nawdd yn peidio a bod o'r adeg y byddwn yn anfon rhybudd atoch yn rhoi gwybod i chi fod hyn i ddigwydd. Fe all y byddwch yn gorfod ad-dalu rhywfaint neu'r cyfan o'r arian a wariwyd eisoes ar eich achos.
- Gellir ei 'ddiddymu' (canslo), petaem yn canfod eich bod wedi cael cymorth cyfreithiol pryd na ddylech, er enghraifft oherwydd i chi roi gwybodaeth anghywir ynglŷn â'ch amgylchiadau ariannol. Mewn achos o'r fath, gellir eich gorfodi i ad-dalu'r holl arian a wariwyd ar eich achos.

7. Sut alla i drefnu i weld ymgynghorydd?

Os ydych yn credu eich bod yn gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol, bydd yn rhaid eich asesu er mwyn:

- gweld a ydych yn bodloni'r holl reolau ynglŷn â chymhwyster ariannol;
- gweld a ydyw eich achos yn bodloni'r 'prawf teilyngdod' y soniwyd amdano ar dudalen 6; a
- chanfod pa lefel gwasanaeth sydd ei hangen arnoch.

I wneud hyn, rhaid i chi'n gyntaf gael hyd i ymgynghorydd cyfreithiol a all ddelio ag achosion cymorth cyfreithiol. Gallwch gael hyd i ymgynghorydd cyfreithiol yn eich ardal trwy:

- ffonio Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar **0845 345 4 345**; neu
- troi at wefan Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, www.cyngorcyfreithiolcymunedol.org.uk

Pan fyddwch yn gweld ymgynghorydd cyfreithiol am y tro cyntaf, bydd yn dweud wrthych pa lefel gwasanaeth sydd ei hangen arnoch ac a ydynt yn gallu asesu i chi eich cais am gymorth cyfreithiol. Yn y mwyafrif o achosion, bydd eich ymgynghorydd yn gwneud cais i swyddfa ranbarthol, a byddant hwy yno yn asesu eich ffurflen gais. Bydd yr ymgynghorydd yn egluro beth ddylid ei ystyried fel rhan o'r asesiad, a sut y byddwn yn penderfynu a ydych i gael cymorth cyfreithiol.

Fel rheol, rydym yn delio â cheisiadau o fewn dwy wythnos. Fe all y bydd angen i ni ofyn i chi am wybodaeth ychwanegol i asesu eich cais. Ni allwn gwblhau eich asesiad hyd nes y bydd yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom gennym, felly mae'n bwysig eich bod yn anfon yn syth unrhyw beth y gofynnwn amdano.

Cyngor y gallwch ymddiried ynddo

Er mwyn sicrhau bod ymgynghorwyr cymorth cyfreithiol yn rhoi cyngor o safon dda, gofynnwn i gyfreithwyr profiadol eraill werthuso eu gwaith. Gall ymgynghorwyr gael gwerthusiad o 1 i 5, pryd y bydd 1 yn rhagorol, a bod 5 yn golygu bod y cyngor a roddwyd ganddynt yn methu â bodloni'n safonau. Pan fyddwch yn gweld ymgynghorydd, gallwch ofyn iddo a oes ganddo werthusiad.

8. Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn gweld ymgynghorydd?

Fel rheol, bydd angen i chi ffonio i drefnu apwyntiad i weld ymgynghorydd cyfreithiol. Pan ewch ato, ewch â'r canlynol gyda chi:

- gwybodaeth am eich incwm a'ch costau (er enghraifft, slipiau cyflog, datganiadau banc a datganiadau budd-daliadau);
- mewn achosion ynglŷn â pherthynas copïau o dystysgrifau priodas a geni os yw'n berthnasol;
- eich rhif yswiriant cenedlaethol;
- copïau o unrhyw lythyrau perthnasol i'ch problem (er enghraifft, llythyrau oddi wrth y person neu'r corff sy'n achosi eich problem);
- copïau o unrhyw ddogfennau llys sy'n berthnasol i'ch problem;
- unrhyw ddogfennau eraill a all fod o gymorth i'r ymgynghorydd (er enghraifft, cytundebau tenantiaeth, os ydi'ch problem ynglŷn â thai).

Rhestr wirio: beth ddylai eich ymgynghorydd ei egluro

Mae nifer o bethau y dylai eich ymgynghorydd eu hegluro i chi ynglŷn â'ch achos a sut y bydd yn delio ag o. Rhaid i chi ymorol y byddant yn cynnwys y pethau canlynol ac os nad ydynt, ymholwch:

- eich dewisiadau ar gyfer datrys eich problem – yn enwedig os na all yr ymgynghorydd ei hun eich helpu;
- eich siawns o ennill eich achos;
- a fydd raid i chi fod yn bresennol yn y llys ai peidio;
- a ellir datrys eich problem heb fynd i lys;
- beth fydd cyfanswm y costau;
- y gwahanol ffyrdd o dalu am wasanaethau cyfreithiol;
- sut mae'r system gyfreithiol yn gweithio, ac a ydych yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol;
- os gallwch gael cymorth cyfreithiol, a fydd yn rhaid i chi dalu rhywfaint o'r costau;
- beth fydd yn rhaid i chi hefyd ei dalu petaech yn colli'ch achos;
- pwy o gwmni'r cyfreithwyr fydd yn ymwneud â'ch achos; a
- beth i'w wneud os ydych yn anfodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniwch.

Cyn i chi adael y cyfarfod, dylech ymorol eich bod yn gwybod:

- beth sydd ei angen i chi ei wneud nesaf;
- beth fydd eich ymgynghorydd yn ei wneud nesaf;
- a oes angen i chi roi rhagor o wybodaeth neu ddogfennau i'ch ymgynghorydd;
- a oes yna unrhyw ddyddiadau neu derfynau amser allweddol y dylech wybod amdanynt; a
- pha bryd y bydd eich ymgynghorydd yn cysylltu â chi eto, neu pa bryd y bydd eich cyfarfod nesaf.

Rhaid i'ch ymgynghorydd ddilyn rheolau proffesiynol, yn cynnwys cadw eich gwybodaeth yn breifat a chyfrinachol. Rhaid i chi ddweud y cyfan wrtho am eich achos, fel y gall eich helpu yn y modd gorau posib.

Beth sy'n digwydd ar derfyn fy achos?

Pan derfynir eich achos, bydd eich ymgynghorydd yn rhoi gwybod i ni beth yw'r canlyniad. Bydd hefyd yn rhoi i chi fanylion ei gostau. Byddwn ni yn cyfrifo a ddylem ad-dalu unrhyw arian i chi neu a ddylech chi dalu'r tâl statudol. Am ragor am hyn gweler taflen CGC 'Talu am eich Cymorth Cyfreithiol'.

9. Materion eraill

Beth os yw fy achos yn achos brys?

Os oes gennych achos brys, er enghraifft os oes angen eich diogelu chwi a'ch plant rhag camdriniaeth, gall eich cyfreithiwr ofyn am Gynrychiolaeth Gyfreithiol Argyfwng. Gellir caniatáu hyn yn syth, ond yn unig ar gyfer gweithredu brys cyfyngedig, ac mae'n rhaid i chi ddal i wneud cais am gymorth cyfreithiol yn y ffordd arferol.

Pan fyddwch yn gwneud cais am Gynrychiolaeth Gyfreithiol Argyfwng, rhaid i chi gytuno i ddarparu'r wybodaeth fydd ei hangen arnom i'ch asesu ar gyfer cymorth cyfreithiol, ac i dalu unrhyw gyfraniad a aseswyd gennym i'w dalu gennych. Rhaid i chi hefyd gytuno i ad-dalu holl gostau eich cymorth petaem yn ddiweddarach yn canfod nad ydych yn gymwys yn ariannol, neu os gwrthodwch swm y nawdd a gynigiwn i chi.

Can people under 18 receive legal aid?

Petai angen cynrychiolaeth gyfreithiol mewn llys ar rywun dan 18, fel rheol byddwn yn asesu ei gais trwy ystyried ei incwm a'i gyfalaf ei hun yn unig (heblaw mewn achos teulu). Ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol mewn achos teulu a phob lefel arall o gymorth cyfreithiol, byddwn fel rheol yn ystyried incwm a chyfalaf ei rieni neu'i warcheidwad ond ni wnawn hyn mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft os oes gwrthdaro buddiannau rhwng y person ifanc a'i rieni.

Beth os yw fy mhroblem yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon?

Ceir cynlluniau gwahanol ar gyfer cymorth cyfreithiol yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. Yn yr Alban cysylltwch â:

The Scottish Legal Aid Board
ffôn: 0131 226 7061
ffacs: 0131 220 4878
www.slab.org.uk

Yng Ngogledd Iwerddon cysylltwch â:

The Northern Ireland Legal Services Commission
ffôn: 028 9040 8888
ffacs: 028 9040 8990
www.nilsc.org.uk

Alla i gael cymorth cyfreithiol ar gyfer problem dramor?

Os oes gennych broblem mewn gwlad arall, er enghraifft os ydych eisiau hawlio iawndal am niwed a gawsoch dramor, neu am ysgariad neu fynediad at eich plant, fe all y bydd GCC yn gallu'ch cynorthwyo i wneud cais am gymorth cyfreithiol yn y wlad honno. Fodd bynnag, fel gyda chymorth cyfreithiol yn y wlad hon, ni all CGC helpu gyda chymorth cyfreithiol dramor ond mewn achosion sifil, ac nid mewn achosion troseddol.

Fe all y byddwn yn gallu gwneud cais am gymorth cyfreithiol ar eich rhan yn y rhan fwyaf o'r gwledydd Ewropeaidd, hynny'n dibynnu ar eich amgylchiadau. Ar gyfer gwledydd eraill, dylech gysylltu â llysgenhadaeth neu swyddfa Is-gennad y wlad honno.

Mae gan bob gwlad ei rheolau ei hun ar sut a phryd y darpara gymorth cyfreithiol, ac mae i'r wlad y deliwch â hi i benderfynu a'i cewch ai peidio, nid y CGC.

Os oes gennych broblem gyfreithiol mewn gwlad arall a'ch bod yn credu y gallwch gael cymorth cyfreithiol ar ei chyfer, ffoniwch Uned Ganolog Gwasanaethau Cwsmeriaid ar **020 7718 8054** i weld a all y CGC eich helpu.

Pa beth na allaf dderbyn cymorth cyfreithiol ar ei gyfer?

Ni allwch dderbyn cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion mewn rhai tribiwnlysoedd neu lysoedd, yn cynnwys:

- Tribiwnlys Cyflogaeth a'r;
- Tribiwnlys Tir.

Efallai bydd Help Cyfreithiol ar gael. Yn ogystal, ni allwch, fel rheol, dderbyn cymorth cyfreithiol ar gyfer y mathau canlynol o achosion:

- anafiadau corfforol;
- difrod i eiddo oherwydd esgeulustod;
- trawsgludo (trosglwyddiad cyfreithiol o berchnogaeth eiddo pan fyddwch yn prynu neu werthu tŷ neu fflat);
- anghydfodau ynglŷn â ffiniau;
- gwneud ewyllys;
- cyfraith ymddiried;
- difenwi (enllib ac athrod) neu anwiredd maleisus (lledaenu'n fwriadol anwireddau am bobl);
- cyfraith cwmnïau neu bartneriaethau;
- materion yn codi o gadw busnes; neu
- fod mewn cyfweliad neu gais am loches.

Mewn amgylchiadau arbennig, gall cymorth cyfreithiol fod ar gael ar gyfer achosion nad ydynt, fel rheol, yn gymwys. Gall eich cyfreithiwr ddweud wrthych a ydyw eich achos chi yn gymwys.

10. Egluro termau cyfreithiol a thermau cymorth cyfreithiol

Cyfalaf gwario
Y swm o asedau, megis cynilion ac eiddo, a ddefnyddiwn i gyfrifo a ydych yn gymwys yn ariannol i gael cymorth cyfreithiol.

Cyfraniad cyfalaf
Y swm, mewn cyfandaliad, sy'n rhaid i chi ei dalu tuag at eich costau cyfreithiol er mwyn cael cymorth cyfreithiol.

Cyfraniad incwm
Rhandaliadau misol y bydd raid i chi eu talu tuag at eich costau cyfreithiol er mwyn derbyn cymorth cyfreithiol.

Cyfryngiad teuluol
Dull o ddatrys anghydfodau o fewn teuluoedd heb fynd i achos llys; er enghraifft, sut y bydd cwpwl a wahanwyd yn trefnu eu materion ariannol a mynediad at eu plant.

Cymhwyster ariannol
A fyddwch yn derbyn cymorth cyfreithiol ai peidio, gan ystyried eich incwm (enillion), costau a chyfalaf (arian, eiddo a meddiannau).

Cymorth Cyfreithiol
Math o gymorth cyfreithiol sy'n talu am gyngor cychwynnol a chymorth gyda'ch problem.

Cymorth mewn Llys
Math o gymorth cyfreithiol sy'n talu i gyfreithiwr neu ymgynghorydd i siarad ar eich rhan mewn rhai gwrandawiadau llys, heb fod yn gweithredu'n ffurfiol ar eich rhan trwy'r achos cyfan.

Cymorth Teuluol
Math o gymorth cyfreithiol sy'n talu am drafodaeth a cheisiadau i gael gorchmynion llys mewn anghydfodau teuluol, er enghraifft anghydfodau rhwng cwpwl a wahanwyd ynglŷn â sut y byddant yn trefnu eu materion ariannol a mynediad at eu plant.

Cynrychiolaeth Gyfreithiol
Math o gymorth cyfreithiol sy'n talu i gyfreithiwr neu fargyfreithiwr i siarad ar eich rhan mewn llys, os ydych yn cymryd neu'n amddiffyn achos llys.

Cytundeb ffî amodol
Cytundeb â chyfreithiwr, a elwir yn gyffredin yn 'dim-ennill, dim-ffi , ar gyfer rhai mathau o achosion, pryd y cytunant i gymryd eich achos ac i chwithau dalu eich taliadau cyfreithiol ond pe baech yn ennill yr achos yn unig.

Diddymu (tystysgrif cymorth cyfreithiol)
Golyga hyn fod eich cymorth cyfreithiol wedi ei ddileu, oherwydd i ni ganfod nad oeddech yn gymwys ar gyfer nawdd, er enghraifft oherwydd i chi roi gwybodaeth anghywir am eich sefyllfa ariannol. Byddwch wedyn yn agored i orfod ad-dalu eich costau cyfreithiol.

Gollwng (o dystysgrif)
Pe atelid eich cymorth cyfreithiol, er enghraifft, oherwydd i ni benderfynu nad ydych mwyach yn gymwys am nawdd neu bod eich achos ar ben.

Incwm gwario
Y swm o incwm, megis enillion a budd¬daliadau, a ddefnyddiwn i gyfrifo a ydych yn gymwys yn ariannol i gael cymorth cyfreithiol.

Partneriaeth Sifil
Partneriaeth gofrestredig swyddogol dau o bobl o'r un rhyw (hoyw neu lesbiaidd) sy'n rhoi iddynt yr un hawliau a chyfrifoldebau â phâr priod.

Prawf teilyngdod
Prawf a ddefnyddir i benderfynu a fyddwch yn derbyn cymorth cyfreithiol ai peidio. Mae'r prawf hwn yn cymryd i ystyriaeth pa mor debygol ydi'ch achos chi o lwyddo, ac a ydi hi'n debygol y gellir ennill yn ôl fwy nag a wariwyd arno.

Pro bono
Pan fo cyfreithiwr yn cytuno i gymryd achos rhywun yn ddi-dâl, weithiau oherwydd ei fod er budd y cyhoedd.

Tâl statudol
Pan fyddwch yn gorfod ad-dalu costau cymorth cyfreithiol byddwch yn derbyn (neu'n dal eich gafael ynddo) arian neu eiddo o ganlyniad i'ch achos.

Tribiwnlys
Corff sy'n debyg i lys yn gwrando ar achosion ac yn barnu. Cyrff arbenigol ydi tribiwnlysoedd ac yn delio â rhai mathau o achosion; er enghraifft, mae'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn delio ag anghydfodau cyflogaeth yn unig.

Tystysgrif
Y ddogfen a rown i chi os ydych yn derbyn cymorth cyfreithiol, ac sy'n dweud ar gyfer beth y byddwn yn talu a faint, os o gwbl, fydd ei angen i chi ei dalu tuag at eich costau.

11. Manylion cyswllt swyddfeydd rhanbarthol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Uned Ganolog Gwasanaethau Cwsmeriaid:
11th Floor
Legal Services Commission
Exchange Tower
2 Harbour Exchange Square
Llundain/London E14 9GE

Ffôn: 020 7718 8025
Ffacs: 020 7718 8021

Rhanbarth Gogledd Lloegr

Swyddfa Lerpwl
2nd Floor, Cavern Court
8 Mathew Street
Lerpwl/Liverpool L2 6RE

Ffôn: 0151 242 5200
Ffacs: 0151 242 5394

Swyddfa Manceinion
2nd Floor, Lee House
90 Great Bridgewater Street
Manchester M1 5JW

Ffôn: 0161 244 5000
Ffacs: 0161 244 5196

Canolfan Prosesu Caer
2nd Floor, Pepper House
Pepper Row
Caer/Chester CH1 1DW

Ffôn: 01244 404500
Ffacs: 01244 404691

De Tyneside
Berkley Way, Viking Business Park
Jarrow NE31 1SF

Ffôn: 0300 2002020
Ffacs: 0191 428 3794

Swyddfa Leeds
Harcourt House, Chancellor Court
21 The Calls
Leeds LS2 7EH

Ffôn: 0113 390 7300
Ffacs: 0113 390 7484

Rhanbarth Canolbarth Lloegr

Nottingham Office
1st Floor, Fothergill House
16 King Street
Nottingham NG1 2AS

Ffôn: 01159 084 200
Ffacs: 01159 084 397

Swyddfa Birmingham
1st Floor, Cannon House
The Priory, Queensgate
Birmingham B4 6BS
Ffôn: 0121 232 5500
Ffacs: 0121 232 5695

Swyddfa Caergrawnt
62-68 Hills Road
Caergrawnt/Cambridge CB2 1LA
Ffôn: 01223 417 800
Ffacs: 01223 417 982

Cymru

Swyddfa Caerdydd
Tŷ Marland
Sgwâr Canolog
Caerdydd CF10 1PF
Ffôn: 0300 2002020
Ffacs: 02920 647 173
Llinell gwasanaeth Cymraeg:
0845 609 9989

Rhanbarth De Lloegr

Swyddfa Bryste
33-35 Queen Square
Bryste/Bristol BS1 4LU
Ffôn: 0117 302 3000
Ffacs: 0117 302 3198

Swyddfa Brighton
3rd/4th Floor, Invicta House
Trafalgar Place, Cheapside
Brighton BN1 4FR
Ffôn: 01273 878800
Ffacs: 01273 878991

Swyddfa Reading
Dukesbridge House
23 Duke Street
Reading RG1 4SA
Ffôn: 01189 558600
Ffacs: 01189 558608

Rhanbarth Llundain

Swyddfa Llundain
12th Floor
Legal Services Commission
Exchange Tower
2 Harbour Exchange Square
Llundain/London E14 9GE
Ffôn: 0300 2002020

Cysylltiadau eraill defnyddiol:
Mae Cyngor Cyfreithiol Cymunedol yn rhoi gwybodaeth, help a chyngor am ddim yn uniongyrchol i'r cyhoedd ar ystod o faterion cyfreithiol cyffredin.
Ffoniwch: 0845 345 4 344
Cliciwch: www.community legaladvice.org.uk

COMISIWN
gwasanaethau cyfreithiol

Legal Services Commission
4 Abbey Orchard Street
London SW1P 2BS

www.legalservices.gov.uk
Ffôn: 0207 783 7000

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (CGC) yn cynhyrchu'r daflen hon.

Er mwyn archebu copïau o'r taflenni y CGC cysylltwch â:

orderleaflets@communitylegaladvice.org.uk
Ffôn: 0845 3000 343
Ffacs: 0845 5438 258

Mae'r holl daflenni hyn ar gael hefyd mewn Braille a Sain.

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn cynhyrchu'r taflenni canlynol:

Canllaw Cam Wrth Gam i Gymorth Cyfreithiol
Canllaw Cam Wrth Gam i ddewis cynghorwr cyfreithiol
Canllaw Ymarferol i Wasanaethau Amddiffyn Troseddol
Gwasanaethau Amddiffyn Troseddol yng Ngorsaf yr Heddlu ac yn y Llys
Talu Am Eich Cymorth Cyfreithiol
Cwynion
Cynrychiolaethau
Uned Archwiliadau Arbennig
Mynediad i Wybodaeth

March 2011
LSCG2 V2